

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Y Creuddyn

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Y Creuddyn ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £46,000.

Yn Ysgol Y Creuddyn mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Conwy a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Gyflogi tîm o gymhorthyddion i ddarparu cefnogaeth unigol i ddisgyblion, yn cynnwys disgyblion Prydau Ysgol am Ddim mewn sefyllfaoedd dosbarth ac ar safleoedd allanol.
- Sicrhau staffio digonol yn nhîm cynhwysiad yr ysgol i gefnogi dysgwyr difreintiedig, bregus, a Prydau Ysgol am Ddim. Hyn yn cynnwys mentora, cwnsela, trefnu a chydgordio ag asiantaethau allanol arbennigol, trefnu a rhedeg clwb brecwast boreuol, trefnu cyrsiau a sesiynau amgen, a chefnogaeth addysgol yn yr uned a'r parlwr.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid
adnabod unigolion.

